OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 No. 932

# Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygio Gorchmynion Cychwyn Rhif 5, Rhif 6, Rhif 8, Rhif 13 a Rhif 14) 2023

**Diwygio Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2021**

**2.**—(1) Mae Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2021(**1**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 1(2), yn y lle priodol mewnosoder—

"ystyr "blwyddyn 6" ("*year 6*") yw grŵp blwyddyn y bydd mwyafrif y plant, yn ystod y flwyddyn ysgol, yn cyrraedd 11 oed;".

(3) Ar ôl erthygl 10 mewnosoder—

"**10A.**—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i blentyn sydd ag anghenion addysgol arbennig a nodwyd ar 1 Medi 2023 ac sydd ym mlwyddyn 6 neu ym mlwyddyn 10 yn ystod y flwyddyn ysgol 2023-2024.

(2) Oni bai bod y gyfraith newydd yn gymwys mewn perthynas â'r plentyn, rhaid i'r corff llywodraethu sy'n darparu'r ddarpariaeth addysgol arbennig i'r plentyn roi naill ai hysbysiad CDU neu hysbysiad Dim CDU i'r plentyn a rhiant y plentyn yn ystod y flwyddyn ysgol 2023-2024.".

(4) Yn erthygl 11—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "9 na 10" rhodder "9, 10 na 10A".

(b) ym mharagraff (2), ar ôl "2023-2024" mewnosoder "neu'r flwyddyn ysgol 2024-2025".

(5) Yn erthygl 13(1) ar ôl "10," mewnosoder "10A,".

(6) Ar ôl erthygl 16 mewnosoder—

"**16A.**—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i blentyn—

(a) a oedd ag anghenion addysgol arbennig a nodwyd ar 1 Ionawr 2022,

(b) a oedd ym mlwyddyn 6 neu ym mlwyddyn 10 yn ystod y flwyddyn ysgol 2023-2024, ac

(c) nad yw'r gyfraith newydd yn gymwys mewn perthynas ag ef ar 30 Awst 2024.

(2) Ar 31 Awst 2024—

(a) mae'r gyfraith newydd yn gymwys mewn perthynas â'r plentyn, a

(b) mae'r hen gyfraith yn peidio â bod yn gymwys mewn perthynas â'r plentyn.".

(7) Yn erthygl 17, yn lle "2024", yn y ddau le y mae'n digwydd, rhodder "2025".

(**1**) O.S. 2021/1243 (Cy. 315) (C. 68) a ddiwygiwyd gan O.S. 2021/1428 (Cy. 369) (C. 80) ac O.S. 2022/663 (Cy. 148) (C. 37).

(8) Yn erthygl 23(1)(a), ar ôl "10(2)" mewnosoder ", 10A(2)".